CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: **Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd**

Dyddiad: **16.12.2022**

Teitl: **Amseriad Cyfarfodydd - Arolwg**

Pwrpas yr adroddiad: **Ystyried adroddiad ar Arolwg arfaethedig o Aelodau mewn perthynas ag amseriad Cyfarfodydd**

Cefndir
Mae Adran 6 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol gynnal arolwg o Gynghorwyr ynghylch amseriad ac amlder cyfarfodydd y Cyngor o leiaf unwaith yn ystod pob cyfnod o weinyddiaeth. Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf gan Gyngor Sir Ceredigion yn 2017/18. Roedd canlyniad yr arolwg hwn fel a ganlyn:

Ymatebodd 32 Aelod i'r arolwg (76% o'r holl Aelodau).

Mae prif gasgliadau'r arolwg fel a ganlyn:

Amseriad cyfarfodydd

- Dywedodd 87.5% o ymatebwyr y dylid parhau i gynnal cyfarfodydd yn bennaf ar ddydd Mercher a dydd Iau;
- Dywedodd 47% o'r ymatebwyr y byddai'n well ganddynt i gyfarfodydd y Cyngor ddechrau am 10.00am; dywedodd 38% y byddai'n well ganddynt iddynt ddechrau am 9.30am;
- Dywedodd 69% o'r ymatebwyr y byddai'n well ganddynt i gyfarfodydd Pwyllgorau ddechrau am 9.30am.

Datblygiadau Diweddar
Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau wneud a chyhoeddi trefniadau er mwyn sicrhau bod modd cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol drwy gyfrwng unrhyw gyfarpar neu gyfleuster arall sy'n galluogi unigolion nad ydynt yn yr un lle i fynychu'r cyfarfodydd. Oherwydd yr amser ychwanegol sydd ei angen i sefydlu cyfarfodydd hybrid a phrofi, mae mwyafrif y cyfarfodydd wedi cychwyn am 10.00am ac eithrio'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n dechrau am 9:00am. Tra bod arolwg 2022/23 yn cynnwys opsiwn ar gyfer cynnal cyfarfodydd gyda'r nos, bydd angen ystyried costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chadw'r adeilad ar agor ac wedi'i wresogi am gyfnod hirach o amser, a chostau staffio ychwanegol gan gynnwys Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd, Swyddogion Cymorth TGCh, Swyddogion Cyfleusterau, Swyddogion Cymorth Cyntaf a Swyddogion Tân cyn y gellir gwneud unrhyw benderfyniad i gynnal cyfarfodydd y tu allan i oriau gwaith arferol. Ar hyn o bryd mae Grwpiau Defnyddwyr yr Harbwr yn cyfarfod gyda'r nos, ond mae'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal o bell ac nid oes opsiwn ar gyfer mynychu yn bersonol.

Argymhelliad:	**Cynnal arolwg o Aelodau er mwyn asesu eu hoffterau o ran amseriad cyfarfodydd, yn unol ag Atodiad A yr adroddiad**
Atodiadau:	Atodiad A – arolwg arfaethedig 2022/23
Dogfennau cefndir:	Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
Enw:	Lowri Edwards
Teitl y Swydd:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	21.10.2022

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD – AROLWG O AELODAU 2022/23

Yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 6(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal arolwg o'r Aelodau ynghylch yr amseroedd a'r cyfnodau y cynhelir cyfarfodydd Awdurdod Lleol.

C1. Enw: _____

C2a. Pa ddiwrnodau'r wythnos ydych chi ar gael i fynychu Cyfarfodydd?

Dydd Llun	ydw/nac ydw
Dydd Mawrth	ydw/nac ydw
Dydd Mercher	ydw/nac ydw
Dydd Iau	ydw/nac ydw
Dydd Gwener	ydw/nac ydw

C2b. Os mai NAC YDW oedd eich ateb uchod, eglurwch pam na allwch fod yn bresennol ar y diwrnodau hynny (e.e. oherwydd unrhyw ymrwymiadau cyflogaeth, cyfrifoldebau gofalu, oedran, rhyw, anabledd, credoau crefyddol ac ati)

C2c. Nodwch yn nhrefn dewis gydag 1 yr uchaf a 5 yw'r isaf pa ddyddiadau sydd orau gennych ar gyfer mynychu cyfarfodydd?

Dydd Llun	
Dydd Mawrth	
Dydd Mercher	
Dydd Iau	
Dydd Gwener	

C3a. Ar ba adegau o'r dydd y byddai'n <u>well</u> gennych i'r cyfarfodydd canlynol <u>ddechrau</u>? (ticiwch ✓ am eich dewis)

Cyfarfodydd y Cyngor Llawn:

Bore	9.30am	
	10.00am	
Prynhawn	2.00pm	

	2.30pm	
	3.00pm	
Gyda'r nos	5.00pm	
	5.30pm	
	6.00pm	
	6.30pm	
	7.00pm	

Cyfarfodydd Pwyllgorau (Trosolwg a Chraffu; Rheoli Datblygu; Trwyddedu; Llywodraethu ac Archwilio)

Bore	9.30am	
	10.00am	
Prynhawn	2.00pm	
	2.30pm	
	3.00pm	
Gyda'r nos	5.00pm	
	5.30pm	
	6.00pm	
	6.30pm	
	7.00pm	

C3b. Eglurwch pam eich bod wedi dewis eich hoffterau uchod ac os nad yw amseroedd penodol yn gyfleus i chi (e.e. oherwydd unrhyw ymrwymiadau cyflogaeth, cyfrifoldebau gofalu, oedran, rhyw, anabledd, credoau crefyddol ac ati)

Bydd canfyddiadau'r arolwg yn cael eu hystyried gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor maes o law.